

Y GWASANAETH PRENTISIAETHAU GWAG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SUT I DDEFNYDDIO'R

DANGOSFWRDD

RHEOLI PRENTISIAETHAU



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

LLYWODRAETH CYMRU

Y GWASANAETH PRENTISIAETHAU GWAG

SUT I DDEFNYDDIO'R

DANGOSFWRDD

RHEOLI PRENTISIAETHAU

TABL CYNNWYS

Cyflwyniad	2
Defnyddio am y tro cyntaf.....	3
Mewngofnodi/Cofrestru	3
MEWNGOFNODI GYDA SOC – DEFNYDDIWR NEWYDD.....	3
MEWNGOFNODI GYDA SOC - DEFNYDDIWR PAROD	6
Creu cyfrif.....	8
Ymuno a sefydliad sy'n bodoli eisoes	9
Cofrestru sefydliad newydd.....	9
Cymeradwyaeth	11
Golygu cyfrif	12
Prentisiaethau gwag.....	13
Creu prentisiaeth newydd	14
Golygu prentisiaeth wag	19
Diweddu prentisiaeth	21
Ymestyn hyd prentisiaeth.....	22
Dileu'r brentisiaeth wag.....	24
Camau cymedroli	25
Drafft	25
Aros i gael eu cymedroli.....	25
Yn fyw	25
Newidiadau yn yr arfaeth	27
Gwrthodwyd	27
Wedi canslo	28
Wedi dod i ben	28
Dangosfwrdd	29
Dewis a dethol	29
Dod i ben.....	30
Nifer yr ymweliadau a throsiadau.....	30
Ymweliadau	30
Trosiadau.....	30
Prentisiaethau gwag wedi'u canslo a wedi dod i ben	31
Gweinyddu grŵp	32

CYFLWYNIAD

Dyma ganllawiau ar sut i ddefnyddio'r dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau.

Dyma lle fydd darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr yn gallu cofnodi manylion eu prentisiaethau gwag i'w rhestru ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth.

DALIER SYLW: BUSNESAU

Rhaid i bob prentisiaeth wag sy'n cael ei chofnodi ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth gael ei lanlwytho yn y Gymraeg a'r Saesneg

Gall defnyddwyr busnes drefnu eu cyfieithiad eu hunain. Os nad oes gennych chi wasanaeth cyfieithu penodol, a'ch bod yn fusnes, gallwch fanteisio ar wasanaeth cyfieithu a gwrio testun am ddim 'Helo Blod'.

Gall Helo Blod gyfieithu hyd at 500 gair i'r Gymraeg, bob mis, am ddim i dy fusnes.

Mae gwasanaeth Helo Blod ar gael i Fusnesau yn unig

Gwasanaeth cyfieithu a chynghori Cymraeg cyflym a chyfeillgar sydd ar gael i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol yw Helo Blod. Y cyfan sydd angen ei wneud yw cofrestru gyda Sign On Cymru (neu fewngofnodi os oes gennych gyfrif yn barod) ac yna lanlwytho manylion eich prentisiaeth wag i'w cyfieithu neu er mwyn gwirio'r testun.

Rhagor o wybodaeth: [llyw.cymru/HeloBlod](https://www.cymru/heloblod)

NODYN PWYSIG: Darparwyr Hyfforddiant

Mae gwasanaeth Helo Blod ar gyfer Busnesau/Cyflogwyr yn unig

Os nad oes gennych gyfleusterau neu contractau cyfieithu mewnol, gallwch ddod o hyd i gyfieithydd cydnabyddedig drwy Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru sy'n cynnwys rhestr o gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg ar eu gwefan.


I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd>

DEFNYDDIO AM Y TRO CYNTAF

MEWNGOFNODI/COFRESTRU

Wrth fynd i'r wefan, bydd gofyn i chi fewngofnodi gyda SOC. Gwasanaeth mewngofnodi unwaith newydd Llywodraeth Cymru yw "Sign On Cymru" (SOC). Os ydych chi eisoes wedi creu cyfrif SOC ar gyfer gwasanaeth arall, gallwch ddefnyddio'r un cyfrif i Reoli Prentisiaethau. Fel arall, gallwch greu cyfrif i'w ddefnyddio ar wasanaeth Rheoli Prentisiaethau a gwasanaethau eraill Llywodraeth Cymru.

P'un a oes gennych gyfrif yn barod neu beidio, cliciwch ar fotwm gwyrdd "Mewngofnodi gyda SOC" i gychwyn arni. Bydd yn mynd â chi i dudalen fewngofnodi/cofrestru SOC



Manage Apprenticeships

Sign in to manage your apprenticeship vacancy

Enter details of apprenticeship vacancies here to list them on Find an apprenticeship.

You will need to log in or create an account with SOC (Sign On Cymru). When you have logged in or created an account you will be redirected back to the Manage Apprenticeships service.

Our Manage apprenticeship user guide will help you register with SOC and enter and manage your vacancies.

[Sign in with SOC](#)

[What is SOC?](#)

[Give feedback about this page](#)

[Share this page](#) [Back to top](#)

[How to use manage an apprenticeship](#) [Apprenticeships guidance and services](#)

[Accessibility](#) [Cookies](#) [Copyright statement](#) [Privacy](#) [Terms and conditions](#)

Ar ôl i chi fewngofnodi neu greu cyfrif byddwch yn cael eich ailgyfeirio'n awtomatig yn ôl i'r dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau.

MEWNGOFNODI GYDA SOC – DEFNYDDIWR NEWYDD

- Cliciwch ar fotwm gwyrdd "Mewngofnodi gyda SOC" i ddechrau arni. Bydd yn mynd â chi i dudalen fewngofnodi/cofrestru SOC.

- Cliciwch ar “Heb gyfrif?” Linc “Creu cyfrif nawr”



Sign On Cymru

Mewngofnodi / Login

Cyfeiriad ebost / Email Address

Cyfeiriad ebost / Email Address


Cyfrinair / Password Wedi anghofio'ch cyfrinair? / Forgot your password?

Cyfrinair / Password

Mewngofnodi / Sign in

Heb gyfrif? / Don't have an account? - - - **Creu cyfrif nawr / Sign up now**

- Rhwch y cyfeiriad e-bost yr hoffech ei ddefnyddio i gofrestru ar gyfer Rheoli Prentisiaethau.



Cofrestru / Sign up

Mae cofrestru gyda Sign On Cymru yn eich galluogi i gael mynediad i wasanaethau amrywiol Llywodraeth Cymru, ac mae ond yn cymryd 5 munud.


Registering with Sign On Cymru enables you to access various Welsh Government services, and it only takes 5 minutes.

Cyfeiriad ebost / Email Address

Sell2walesmac+1@outlook.com

Anfon cod dilysu / Send verification code

- Cliciwch ar “Anfon cod dilysu”
- Bydd cod dilysu yn cael ei anfon i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd gennych



- Teipiwch y cod hwn yn y blwch cod dilysu ar y ffurflen SOC

Mae cod dilysu wedi'i anfon i'ch blwch derbyn i chi ei gopïo i'r blwch isod. / Verification code has been sent to your inbox. Please copy it to the input box below.

Cyfeiriad ebost / Email Address

Cod dilysu / Verification code

Gwrio'r Cod / Verify code **Anfon Cod newydd / Send new code**

- Cliciwch ar "Gwrio'r Cod"
- Teipiwch eich cyfrinair newydd a'i gadarnhau yn yr ail faes

Cyfrinair newydd / New Password

Cadarnhau cyfrinair newydd / Confirm New Password

Creu / Create **Canslo / Cancel**

- Cliciwch ar "Creu". Byddwch yn mynd i dudalen proffil Rheoli Prentisiaethau - gall hyn gymryd sawl eiliad.
- Llenwch bob maes gorfodol a chadw'r manylion. Cewch eich trosglwyddo i sgrin cyfrif y gwasanaeth Rheoli Prentisiaethau wedyn.

Y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag (GPG)
Sut I Ddefnyddio'r Dangosfwrdd Rheoliprentisiaethau V1.4

Os na fyddwch yn llwyddo i gwblhau a chadw'r proffil Rheoli Prentisiaethau cyn pen 24 awr i gofrestru, bydd eich cyfrif "Sign on Cymru" yn cael ei ddileu a byddwch yn gorfod cofrestru ar SOC eto.

MEWNGOFNODI GYDA SOC - DEFNYDDIWR PAROD

Defnyddwyr parod SOC - os oes gennych eisoes gyfrif SOC gydag un o wasanaethau digidol Busnes Cymru fel BOSS, Cofrestr Rhanddeiliaid, byddwch yn gallu mewngofnodi i ddangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau cyn belled â bod eich cyfrifon yn rhannu'r un cyfeiriad e-bost.

- Cliciwch ar fotwm gwyrdd "Mewngofnodi gyda SOC" i ddechrau arni. Bydd yn mynd â chi i dudalen fewngofnodi/cofrestru SOC.
- Rhowch eich manylion cyfredol SOC a chlicio ar Mewngofnodi.
- Byddwch yn cael eich trosglwyddo i'r dudalen proffil Rheoli Prentisiaethau - gall hyn gymryd ychydig eiliadau. Bydd y tabiau proffil wedi'u llenwi'n rhannol â'ch gwybodaeth cyfrif SOC cyfredol.
- Ewch ati i lenwi a chadw pob maes gorfodol, cyn cael eich trosglwyddo i sgrin cyfrif y gwasanaeth Rheoli Prentisiaethau.

Unwaith i chi gofrestru ar SOC, byddwch yn gallu defnyddio gwybodaeth a gwasanaethau eraill gan gynnwys gwasanaeth cyfieithu am ddim "Helo Blod".

Gall Helo Blod gyfieithu hyd at 500 gair i'r Gymraeg, bob mis, am ddim i dy fusnes.

Mae Helo Blod yn cynnig gwasanaeth cyfieithu a gwirio testun am ddim i gyflogwyr.

Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn drwy glicio ar 'Busnes Cymru' yn yr adran Cysylltwch â ni ar waelod y dudalen, yna clicio ar fotwm 'Mwy' ar gornel dde uchaf y dudalen, a dewis 'Helo Blod' o'r gwympfen.

Y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag (GPG) Sut I Ddefnyddio'r Dangosfwrdd Rheoliprentisiaethau V1.4

Cyfeiriad ebost / Email Address

Cyfeiriad ebost / Email Address

Cyfrinair / Password Wedi anghofio'ch cyfrinair? / Forgot your password?

Cyfrinair / Password

Mewngofnodi / Sign in

Heb gyfrif? / Don't have an account? ---> Creu cyfrif nawr / Sign up now

Cysylltwch â ni / Connect with us

- [Busnes Cymru / Business Wales](#)
- [Llywodraeth Cymru / Welsh Government](#)

Tanysgrifio i ebost / Newsletter subscribe

Tanysgrifiwch i dderbyn e-gylchlythr
Subscribe to our email newsletter

Tanysgrifio / Subscribe

Llinell gymorth / Helpline

03000 6 03000

Amdanom ni

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni

Hawftraint

Preifatrwydd


Telerau ac amodau

Datganiad Iaith Gymraeg

Neu fel arall, ewch i'r ddolen: llyw.cymru/HeloBlod

CREU CYFRIF

Ar ôl i chi fewngofnodi gyda SOC, bydd angen i chi ddewis ai cyflogwr neu ddarparwr hyfforddiant ydych chi cyn y gallwch gael mynediad i'r dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau a chreu prentisiaethau newydd.



Complete your sign up

Are you an employer or a training provider? *

☐ Employer

☐ Training provider

Next >

Ar ôl i chi ddewis 'Nesaf' bydd ffurflen arall yn ymddangos er mwyn i chi naill ai gofrestru gyda sefydliad sy'n bodoli eisoes neu greu un newydd.

Training provider details

Your first name *

Your last name *

Training Provider *

If your training provider does not exist in this list, please select "New Training Provider" and fill out your organisation's details.

- Select - ▼

☐ I confirm that the information given in this form is true, complete and accurate*

[< Previous](#)

[Submit](#)

YMUNO A SEFYDLIAD SY’N BODOLI EISOES

Ar gyfer darparwr hyfforddiant a chyflogwr, byddwch yn cael rhestr ddethol o'r sefydliadau sydd ar gael. Os yw eich sefydliad yn bodoli yn y rhestr hon, dewiswch ef a bwrw ymlaen. Bydd gennym wybodaeth wedi'i storio felly ni fydd angen i chi roi gwybodaeth eich sefydliad eto.

COFRESTRU SEFYDLIAD NEWYDD

Os nad yw eich sefydliad yn bodoli yn y rhestr a ddarperir, dewiswch yr opsiwn "Darparwr hyfforddiant newydd" os ydych yn ddarparwr hyfforddiant, neu "Cyflogwr newydd" os ydych yn gyflogwr. Mae'r opsiwn hwn i'w weld ar waelod y rhestr ddethol.

Pan gaiff ei ddewis, bydd y ffurflen yn cyflwyno meysydd newydd i chi gofrestru eich sefydliad gyda'r safle Rheoli Prentisiaethau.

Training provider details

Your first name *

Your last name *

Training Provider *

If your training provider does not exist in this list, please select "New Training Provider" and fill out your organisation's details.

New Training Provider ▼

Training provider name *

Training Provider Email *

Training Provider Phone *

Training Provider Website *

Training Provider Address

Postal code *

Find address

Manual Entry

☐ I confirm that the information given in this form is true, complete and accurate*

◀ Previous

Submit

CYMERADWYAETH

Registration Pending

Your request will now be verified and when complete you will receive confirmation to the email address provided.
This can take between 12 to 24 hours to come through.

If you have not received a response after 24 hours, please contact AVS-Enquiries@gov.wales

Ar ôl cyflwyno'r ffurflen, bydd eich cyfrif yn cael ei gadw ar statws aros i gofrestru tra byddwn yn gwirio eich cyfrif. Bydd angen i ni wirio'r wybodaeth a ddarparwyd a sicrhau eich bod yn perthyn i'r sefydliad rydych wedi cofrestru gydag ef. Unwaith y byddwn wedi cymeradwyo eich cyfrif byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau ac yna byddwch yn gallu cael mynediad i'r dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau.

Os yw eich cofrestriad wedi'i wrthod, byddwch yn derbyn e-bost sy'n cynnwys y rheswm nad yw eich cyfrif wedi'i gymeradwyo.

GOLYGU CYFRIF


I olygu manylion y cyfrif a gyflwynwyd wrth gofrestru am y tro cyntaf, cliciwch ar eich enw defnyddiwr/e-bost yn y gornel dde uchaf ar unrhyw adeg i fynd i'r dudalen golygu cyfrif.

Manage Apprenticeships

 johnsmith@example.com

Sign out

Manage Apprenticeships: Example Employer



Manage Apprenticeships

 johnsmith@example.com [Sign out](#)

Edit account details

Choose training provider

Admiral

Training provider address *

Company

Street address *

Royal Mail, Swansea Mail Centre

Siemens Way

Post town *

Swansea

Postal code *

SA1 1AA

Province *

Swansea

Postcode lookup

Phone

Website

Save

PRENTISIAETHAU GWAG

Ar ôl i'ch cyfrif gael ei gymeradwyo gallwch nawr greu prentisiaethau gwag yn y dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau.

Wrth fewngofnodi i'r gwasanaeth neu glicio ar logo "Rheoli Prentisiaethau" yn y gornel chwith uchaf, byddwch yn gweld eich dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau gyda manylion eich holl brentisiaethau byw, pa rai sy'n cael eu cymedroli, a'r rhai sydd wedi gorffen. Hefyd, gallwch glicio ar fotwm glas "Prentisiaeth newydd" i ddechrau creu cyfle newydd.

Drwy gofrestru gyda'ch sefydliad, gallwch hefyd reoli prentisiaethau gwag sydd wedi'u postio gan aelodau eraill o'ch sefydliad, drwy wirio'r blwch, "Dangoswch bob prentisiaeth wag ar gyfer eich sefydliad".

Manage Apprenticeships

 johnsmith@example.com

Sign out

Manage Apprenticeships: Example Employer

New vacancy

Showing vacancies created by you

☐ Show all vacancies in
your organisation

Sort by

Vacancy name ▼

You have no live or in moderation vacancies

DALIER SYLW: Busnesau a Sefydliadau Gwirfoddol

Rhaid i bob prentisiaeth wag sy'n cael ei chofnodi ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth gael ei lanlwytho yn y Gymraeg a'r Saesneg

Gall busnesau a sefydliadau gwirfoddol drefnu eu cyfieithiad eu hunain neu gofrestru i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu a gwirio testun am ddim 'Helo Blod'.

Rhagor o fanylion: llyw.cymru/heloblod

Bydd angen caniatáu 2 ddiwrnod gwaith ar gyfer cyfieithiadau - a dylid cofio cynnwys hyn yn eich amserlen ar gyfer lanlwytho prentisiaethau gwag.

Bydd angen lanlwytho'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'ch cyfle prentisiaeth i'ch dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau.

NODYN PWYSIG: Darparwyr Hyfforddiant

Mae gwasanaeth Helo Blod ar gael i Fusnesau a Sefydliadau Gwirfoddol yn unig

Mae gan Ddarparwyr Hyfforddiant gcontract â Llywodraeth Cymru, ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau darpariaeth ddwyieithog o dan delerau eu contract.

Os nad oes gennych gyfleusterau neu gcontractau cyfieithu mewnol, gallwch ddod o hyd i gyfieithydd cydnabyddedig drwy Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru sy'n cynnwys rhestr o gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg ar eu gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd>

I ychwanegu prentisiaeth newydd – a fydd i'w gweld maes o law ar wasanaeth Chwilio am Brentisiaeth – dechreuwch drwy glicio ar fotwm glas "Prentisiaeth newydd" ar eich dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau.

Manage Apprenticeships: Example Employer

New vacancy



Showing vacancies created by you

☐ Show all vacancies in
your organisation

Sort by

Vacancy name ▼

You have no live or in moderation vacancies

Bydd yn agor ffurflen amludalen i chi allu llenwi'r holl wybodaeth berthnasol am y brentisiaeth dan sylw. Rhaid llenwi'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un ffurflen hon er mwyn cyflwyno'r brentisiaeth wag.

Create new vacancy

Vacancy details1 of 3

Vacancy name *

Vacancy name (Welsh) *

Apprenticeship level *

- Select -

Number of vacancies *

Sector *

- Select -

Possible start date ?

Day

Month

Year

DD

MM

YYYY

Closing date of listing *

Day

Month

Year

DD

MM

YYYY

Hours per week *

☐ 16-30 hours per week

☐ 31-40 hours per week

☐ Over 41 hours per week

Pay *

For example the salary may be an **annual value** of £15,000 per annum

☐ Annual value

☐ Monthly value

☐ National minimum wage

☐ Apprenticeship rates

☐ Other

Disability confident ? *

☐ Yes

☐ No

Daily duties *

Daily duties (Welsh) *

Save as draft

Save and continue

Mae'r meysydd â symbol seren goch (*) yn rhai gorfodol.

Qualifications required *

Gallwch adael unrhyw faes heb symbol seren goch yn wag os nad yw'n berthnasol i'ch cyfle prentisiaeth chi.

Mae'r meysydd canlynol wedi'u cynnwys yn y ffurflen prentisiaethau gwag;

- Enw'r brentisiaeth
- Lefel y brentisiaeth
- Nifer y lleoedd ar gael
- Sector
- Dyddiad dechrau posibl
- Dyddiad cau y rhestriad
- Orlau gwaith
- Cyflog
- Manylion cyflog
- Hyderus o ran anabledd
- Dyletswyddau dyddiol
- Nodweddion personol dymunol y prentis
- Gwybodaeth ychwanegol
- Cymwysterau gofynnol
- Gofynion y Gymraeg
- Enw a chyfeiriad y cyflogwr
- Logo'r cyflogwr
- **Enw'r darparwr hyfforddiant***
- Cwrs darparwr hyfforddiant
- Trefniadau cyfweld
- Cyfarwyddiadau ychwanegol

*Mae cwymplen ddewisol wedi'i chynnwys yn yr hysbyseb, sy'n golygu bod rhaid i gyflogwr ddewis darparwr hyfforddiant cyn gallu symud ymlaen neu ddewis 'heb ddarparwr hyfforddiant' neu 'Arall'.


Bydd neges e-bost yn cael ei hanfon at y darparwr hyfforddiant a ddewisir, e.e. Os yw cyflogwr yn lanlwytho cyfle prentisiaeth ac yn cadarnhau ei fod yn gweithio gyda chwmni ALS Training trwy ddefnyddio'r gwymplen, bydd hynny'n sbarduno neges e-bost awtomatig i ALS Training i ddweud fod cyflogwr wedi'u dewis nhw.

Y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag (GPG) Sut I Ddefnyddio'r Dangosfwrdd Rheoliprentisiaethau V1.4


Os caiff yr opsiwn 'Cyflogwr newydd heb ddarparwr' neu 'Arall' ei ddewis ac enw is-gontractwr ei gofnodi, caiff hyn ei nodi fel rhan o'r broses gymedroli, a bydd y tîm Prentisiaethau Gwag yn cysylltu â'r darparwr arweiniol.

- 'Cyflogwr newydd heb ddarparwr' – nid yw'r cyflogwr wedi cofrestru gyda darparwr a bydd angen cysylltu ag ef.
- 'Arall' - bydd angen i'r darparwr arweiniol gadarnhau bod yr isgontractwr a nodwyd yn yr hysbyseb yn gywir.

Ar ôl llenwi gwybodaeth ar bob tudalen o'r ffurflen, sgroliwch i waelod y dudalen a chliciwch ar y botwm "Cadw a pharhau" i fynd i'r dudalen nesaf, "Yn ôl" i ddychwelyd i'r dudalen flaenorol, neu "Cadw fersiwn ddrafft" i gadw manylion y brentisiaeth swydd a'i gwblhau'n ddiweddarach. Bydd y botwm "Cadw a pharhau" hefyd yn cadw'r holl wybodaeth a gofnodwyd o'r tudalennau blaenorol, gan ganiatáu i chi adael a dychwelyd eto.



Ar ôl i chi gyrraedd tudalen olaf y ffurflen, gallwch glicio ar fotwm coch "Cyflwyno" i gyflwyno eich prentisiaeth i'w chymedroli.



Unwaith i chi anfon popeth, cewch hysbysiad e-bost i ddweud bod eich cyfle prentisiaeth wedi cyrraedd ac yn aros i gael ei gymedroli.

GOLYGU PRENTISIAETH WAG

Dim ond os yw'n fyw, yn fersiwn ddrafft neu wedi ei gwrthod y gellir golygu prentisiaeth. Does dim modd golygu prentisiaeth wag os yw eisoes yn cael ei chymedroli, wedi'i gwrthod gyda newidiadau yn yr arfaeth, yn 'fyw' gyda newidiadau yn yr arfaeth, wedi'i chanslo neu wedi dod i ben. Gallwch ddarllen mwy am **gamau cymedroli** yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

I ddechrau golygu cyfle prentisiaeth sy'n fyw, yn fersiwn ddrafft neu wedi'i wrthod, cliciwch ar y teitl glas ar y dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau.

The screenshot shows the 'Manage Apprenticeships' interface. At the top, there's a header with the title 'Manage Apprenticeships', a user profile 'johnsmith@example.com', and a 'Sign out' button. Below the header, a notification bar states 'You have vacancies due to expire in the next week'. The main content area has a 'Sort by' dropdown set to 'Vacancy name', a 'Delete' button, and a 'New vacancy' button. A table lists several vacancies with columns for selection, title, location/reference, views, conversions, and status. Red arrows point to the titles of 'Another example', 'Example vacancy 2', 'Name of vacancy here', and 'Third example vacancy'.

	Vacancy name	Views	Conversions	Status
☐	An example vacancy Example Swansea Ref: 95	0	0	Live Changes pending Closes: 01 Feb 2021
☐	Another example Example Swansea Ref: 96	0	0	Live Closes: 27 Feb 2020
☐	Example vacancy Example Swansea Ref: 89			Awaiting moderation
☐	Example vacancy 2 Swansea Ref: 91			Draft
☐	Name of vacancy here Example Swansea Ref: 93			Rejected View details
☐	Third example vacancy Swansea Ref: 92			Draft

[Show cancelled and expired vacancies](#)


Bydd yn mynd â chi i ffurflen amludalen sy'n debyg i'r ffurflen prentisiaeth wag newydd sydd eisoes wedi'i llenwi, ond gyda'r holl wybodaeth flaenorol wedi'i llenwi'n barod. Gallwch fynd o dudalen i dudalen fel o'r blaen, a dim ond newid y meysydd sydd angen eu golygu. Os mai fersiwn ddrafft yw'r brentisiaeth neu os yw wedi'i

Y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag (GPG)
Sut I Ddefnyddio'r Dangosfwrdd Rheoliprentisiaethau V1.4

gwrthod, gallwch ei chadw fel drafft heb lenwi pob maes, ond **allwch chi ddim cadw prentisiaeth fyw sydd wedi'i chwblhau'n rhannol**. Os bydd angen cyflwyno newidiadau i brentisiaeth sydd eisoes yn 'fyw', bydd angen i chi fynd drwy holl dudalennau'r ffurflen a chlicio'r botwm coch "cyflwyno".

Bydd angen cymedroli unrhyw waith golygu i brentisiaeth fyw, drafft neu wedi'i gwrthod, eto fel y nodir uchod.


O dudalen golygu prentisiaeth wag, gallwch glicio ar ddolen "gweld sut mae'r brentisiaeth wag hon yn edrych i'ch cynulleidfa" yn y faner wybodaeth i weld eich prentisiaeth wag ar wasanaeth Chwilio am Brentisiaeth.




The screenshot shows the 'Manage Apprenticeships' interface. At the top, there's a header with the title 'Manage Apprenticeships', a user profile 'johnsmith@example.com', and a 'Sign out' button. Below the header, a notification bar contains an information icon and the text: 'This vacancy is currently live, [see how this vacancy currently looks to your audience.](#)'. A red arrow points to this link. Below the notification bar, the main heading is 'Edit vacancy'. To the right of this heading are two buttons: 'Extend closing date' (blue) and 'End vacancy' (red). Below the heading, there's a section titled 'Vacancy details' with a sub-label 'Vacancy name *' and a text input field containing 'Another example'. In the top right corner of the 'Vacancy details' section, it says 'Page 1 of 4'.

DIWEDDU PRENTISIAETH

I ddod â phrentisiaeth i ben, rhaid iddi fod 'yn fyw' yn y lle cyntaf. Cliciwch ar deitl y brentisiaeth wag, fel wrth olygu prentisiaeth wag. Ar y dudalen hon, fe welwch chi ddau fotwm ar y dde uchaf - cliciwch ar fotwm coch "Diweddu Prentisiaeth". Bydd hyn yn cadarnhau eich bod yn siŵr, ac os byddwch yn cadarnhau bydd y brentisiaeth yn dod i ben.



Bydd dod â phrentisiaeth i ben yn ei dileu o wasanaeth Chwilio am Brentisiaeth, ond byddwch chi'n dal i allu gweld ei hanes o'r dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau. Ar waelod y dangosfwrdd mae opsiwn i ddangos prentisiaethau gwag wedi'u canslo a dod i ben. Cliciwch hwn i weld eich prentisiaethau gwag sydd wedi dod i ben a'u canslo, os oes gennych rai.



Y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag (GPG) Sut I Ddefnyddio'r Dangosfwrdd Rheoliprentisiaethau V1.4

Example Swansea Ref: 93

view details

☐ **Third example vacancy** Draft

Swansea Ref: 92

Cancelled and expired vacancies

☐ **Four - example vacancy**

Example Swansea Ref: 94

Views:
0

Conversions:
0

Cancelled
Cancelled on: 27 Feb 2020

[Hide cancelled and expired vacancies](#)

YMESTYN HYD PRENTISIAETH

I ymestyn cyfnod prentisiaeth wag, rhaid iddi fod yn fyw yn y lle cyntaf. Cliciwch ar deitl y brentisiaeth wag, fel wrth olygu prentisiaeth wag. Unwaith y byddwch chi ar y dudalen hon, fe welwch ddau fotwm ar y dde uchaf - cliciwch ar y botwm glas “Ymestyn dyddiad cau”. Bydd hyn yn agor blwch i chi deipio'r dyddiad cau newydd. Bydd y dyddiad cau newydd hwn yn ‘fyw’ ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth ar unwaith, ac ni fydd angen ei gymedroli.

Manage Apprenticeships

johnsmith@example.com Sign out

This vacancy is currently live, [see how this vacancy currently looks to your audience.](#)

Edit vacancy

Extend closing date

End vacancy

Vacancy details

Page 1 of 4

Vacancy name *

Another example

Select a new closing date for your vacancy * ✕

Day

Month

Year

DD

MM

YYYY

Submit

Cancel

DILEU'R BRENTISIAETH WAG

I ddileu prentisiaeth, neu fwy nag un prentisiaeth, cliciwch i dicio'r blwch i'r chwith o deitl y brentisiaeth ar y dangosfwrdd. Pan fyddwch yn ticio o leiaf 1 prentisiaeth i'w dileu, bydd y botwm dileu ar ben y dudalen ar y dde yn dechrau gweithio. Os ydych chi'n hapus gyda'r detholiad o brentisiaethau gwag i'w dileu, cliciwch y botwm "Dileu".

The screenshot shows the 'Manage Apprenticeships' interface. At the top, there's a header with the title 'Manage Apprenticeships', a user profile 'kecatov568@edusamail.net', and a 'Sign out' button. Below the header, a notification bar states 'You have vacancies due to expire in the next week'. The main section has a 'Sort by' dropdown set to 'Vacancy name'. To the right are buttons for 'Delete' and 'New vacancy'. The table lists three vacancies:

Selection	Vacancy Name	Details	Views	Conversions	Status
☒	An example vacancy	Example Swansea Ref: 95	0	0	Live Changes pending Closes: 01 Feb 2021
☒	Another example	Example Swansea Ref: 90	1	0	Live Closes: 27 Feb 2020
☐	Example vacancy	Example Swansea Ref: 89			Awaiting moderation

Red arrows point to the checkboxes for 'An example vacancy' and 'Another example', and to the 'Delete' button.

CAMAU CYMEDROLI

Mae pob prentisiaeth wag yn cael ei chymedroli gan dîm prentisiaethau Llywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar ba gam o'r broses y mae'ch prentisiaeth wag, gall fod mewn nifer o gamau cymedroli fel y nodir isod.

DRAFFT

☐ **Example vacancy 2**
Swansea Ref: 91

Draft

Ystyr prentisiaeth wag ddrafft yw un heb ei chwblhau na'i chyflwyno i'w chymedroli eto. Bydd clicio ar ei henw yn caniatáu i chi barhau i olygu'r drafft a naill ai cadw'r drafft eto – os felly, fydd y cam cymedroli ddim yn newid – neu cyflwyno'r brentisiaeth i'w chymedroli.

AROS I GAEL EU CYMEDROLI

☐ **Example vacancy**
Example Swansea Ref: 89

Awaiting moderation

Mae prentisiaeth wag sy'n aros am gymedroli yn golygu bod yr holl fanylion gofynnol wedi'u llenwi a'i bod ar hyn o bryd mewn ciw safoni gan dîm prentisiaethau Llywodraeth Cymru. Gallwch weld, ond nid golygu, prentisiaeth wag sydd yn y sefyllfa hon. Os oes angen golygu unrhyw beth, bydd angen i chi aros i'r brentisiaeth wag naill ai gael chymedroli a mynd yn 'fyw' ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth, neu gael ei gwrthod.

YN FYW

☐ **An example vacancy**
Example Swansea Ref: 95

Views: 0

Conversions: 0

Live
Closes: 01 Feb 2021

Mae mynd "yn fyw" yn golygu bod y brentisiaeth bellach i'w gweld yn gyhoeddus ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth. Bydd rhywfaint o wybodaeth allweddol yn ymddangos yma, fel lleoliad y swydd, y cyfeirnod a'r dyddiad cau. Mae adran **Dangosfwrdd** y ddogfen hon yn cynnwys manylion pellach am nifer yr ymweliadau a throsiadau.

Y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag (GPG)
Sut I Ddefnyddio'r Dangosfwrdd Rheoliprentisiaethau V1.4

Bydd clicio ar brentisiaeth wag yn caniatáu i chi olygu a chyflwyno'r rheini i'w cymedroli. Bydd dolen gyswllt ar frig y brentisiaeth wag byw a fydd yn eich galluogi i'w weld ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth.

NEWIDIADAU YN YR ARFAETH

☐ **An example vacancy**
Example Swansea Ref: 95

Views: **0**

Conversions: **0**

Live
Changes pending
Closes: 01 Feb 2021

Efallai bod newidiadau ar y gweill i brentisiaeth fyw hefyd. Dyma'r cam pan fydd newidiadau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli ond ddim yn fyw eto. Bydd y fersiwn byw flaenorol o'r swydd wag yn parhau'n fyw ac yn hygyrch ar y gwasanaeth dod o hyd i brentisiaeth yn ystod y cyfnod hwn.

GWRTHODWYD

☐ **Name of vacancy here**
Example Swansea Ref: 93

Rejected
[View details](#)

Mae prentisiaeth wag a wrthodwyd wedi'i hadolygu gan Lywodraeth Cymru, a'i barnu'n anaddas i fynd yn fyw ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth. Bydd clicio ar deitl y brentisiaeth wag neu'r ddolen "gweld manylion" yn mynd â chi i fersiwn y gallwch ei golygu, a bydd y rheswm dros wrthod ar frig y dudalen.

Manage Apprenticeships [johnsmith@example.com](#) [Sign out](#)

⚠ This vacancy was rejected for the following reason:
Please give more details about daily duties.

Edit vacancy

Vacancy details

Page 1 of 3

Vacancy name *

Apprenticeship level *

Gallwch gyflwyno'r newidiadau gofynnol ar y dudalen hon a'u hailgyflwyno i'w cymedroli wedyn.

WEDI CANSLO

☐	Four - example vacancy Example Swansea Ref: 94	Views: 0	Conversions: 0	Cancelled Cancelled on: 27 Feb 2020
--------------------------	--	--------------------	--------------------------	---

Ar waelod eich dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau, gallwch sgrolio i lawr i weld eich prentisiaethau sydd wedi'u canslo a dod i ben. Ystyr prentisiaeth wag wedi'i chanslo yw un sydd wedi'i therfynu â llaw trwy glicio arni, pwyso'r botwm "Diweddu Prentisiaeth" ar ochr dde uchaf y sgrin, a chadarnhau eich bod yn barod i'w chanslo.

Bydd y brentisiaeth sy'n cael ei chanslo yn dangos yr un manylion allweddol â phan oedd yn fyw, a'r dyddiad y cafodd ei chanslo. Gallwch glicio'r teitl i weld y wybodaeth ddiweddaraf a gadwyd ar gyfer y brentisiaeth hon - does dim modd golygu'r wybodaeth mwyach gan fod y brentisiaeth wedi'i chanslo.

WEDI DOD I BEN

Ar waelod eich dangosfwrdd Rheoli Prentisiaethau, gallwch sgrolio i lawr i weld eich prentisiaethau sydd wedi'u canslo a'r rhai a ddaeth i ben. Mae prentisiaeth wag a ddaeth i ben yn golygu bod y dyddiad cau wedi bod.


☐	Another example Example Swansea Ref: 90	Views: 1	Conversions: 0	Expired Expired on: 27 Feb 2020
--------------------------	---	--------------------	--------------------------	---

Bydd y brentisiaeth a ddaeth i ben yn dangos yr un manylion allweddol â phan oedd yn fyw, yn ogystal â'r dyddiad y daeth i ben. Gallwch glicio'r teitl i weld y wybodaeth ddiweddaraf a gadwyd ar gyfer y brentisiaeth hon - does dim modd golygu'r wybodaeth mwyach gan fod y brentisiaeth wedi dod i ben.

DANGOSFWRDD

DEWIS A DETHOL

Os oes gennych chi nifer o brentisiaethau gwag, gallwch glicio ar y gwymplen lwyd a dewis naill ai didoli eich prentisiaethau fesul enw (yn nhrefn yr wyddor) neu fesul dyddiad cau.



Manage Apprenticeships johnsmith@example.com Sign out

Manage Apprenticeships

You have vacancies due to expire in the next week

Sort by **Vacancy name** Delete New vacancy

☐	An example vacancy Example Swansea Ref: 95	Views: 0	Conversions: 0	Live Changes pending Closes: 01 Feb 2021
☐	Another example Example Swansea Ref: 90	Views: 0	Conversions: 0	Live Closes: 27 Feb 2020
☐	Example vacancy Example Swansea Ref: 89	Awaiting moderation		
☐	Example vacancy 2	Draft		

Y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag (GPG) Sut I Ddefnyddio'r Dangosfwrdd Rheoliprentisiaethau V1.4

DOD I BEN

Os oes gennych unrhyw brentisiaethau gwag sy'n dod i ben cyn hir, bydd neges yn ymddangos ar frig y dangosfwrdd i roi gwybod am hyn.

Manage Apprenticeships johnsmith@example.com Sign out

Manage Apprenticeships

You have vacancies due to expire in the next week

Sort by Vacancy name Delete New vacancy

☐	An example vacancy Example Swansea Ref: 95	Views: 0	Conversions: 0	Live Changes pending Closes: 01 Feb 2021
☐	Another example Example Swansea Ref: 90	Views: 0	Conversions: 0	Live Closes: 27 Feb 2020
☐	Example vacancy Example Swansea Ref: 89			Awaiting moderation
☐	Example vacancy 2			Draft

NIFER YR YMWELIADAU A THROSIADAU

Bydd unrhyw brentisiaeth wag sy'n fyw, neu a fu'n fyw, yn dangos ystadegau nifer yr ymweliadau a throsiadau.

☐	An example vacancy Example Swansea Ref: 95	Views: 0	Conversions: 0	Live Changes pending Closes: 01 Feb 2021
--------------------------	--	----------	----------------	---

YMWELIADAU


Dyma'r niferoedd sydd wedi gweld manylion y brentisiaeth wag ar y gwasanaeth Chwilio am Brentisiaeth.

TROSIADAU


Dyma faint o bobl sydd naill ai wedi clicio i wneud cais ar eich gwefan neu drwy'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd.

PRENTISIAETHAU GWAG WEDI'U CANSLO A WEDI DOD I BEN

Mae prentisiaethau gwag sydd wedi'u canslo a wedi dod i ben yn ymddangos mewn adran ar wahân ar waelod y dangosfwrdd. Mae'r rhain wedi'u cuddio yn ddiofyn, a gallwch eu gweld drwy glicio ar "dangos prentisiaethau wedi'u canslo a wedi dod i ben" ar waelod y dudalen.



☐	Name of vacancy here Example Swansea Ref: 93	Awaiting moderation
☐	Third example vacancy Swansea Ref: 92	Draft
Show cancelled and expired vacancies ▼		



Cancelled and expired vacancies

☐	Another example Example Swansea Ref: 90	Views: 1	Conversions: 0	Expired Expired on: 27 Feb 2020
☐	Four - example vacancy Example Swansea Ref: 94	Views: 0	Conversions: 0	Cancelled Cancelled on: 27 Feb 2020
Hide cancelled and expired vacancies ▲				

Unwaith y cânt eu datgelu, gallwch gau'r rhain wedyn trwy ddewis y ddolen "cuddio prentisiaethau wedi'u canslo neu wedi dod i ben" ar waelod yr adran.

GWEINYDDU GRŴP

Ar hyn o bryd, mae'r tîm prentisiaethau mewnol yn ymdrin ag unrhyw weinyddiaeth grŵp. Gallwn gynorthwyo gyda'r tasgau gweinyddol canlynol.

- Adrodd ar holl aelodau eich grŵp.
- Tynnu aelod o'ch grŵp.
- Ychwanegu defnyddiwr presennol at eich grŵp.
- Symud defnyddiwr o grŵp i'ch grŵp.
- Ychwanegu prentisiaeth wag sy'n bodoli eisoes at eich grŵp.
- Tynnu prentisiaeth wag o'ch grŵp.

Os oes angen i ni gyflawni unrhyw un o'r tasgau hyn, cysylltwch â ni drwy e-bostio GPG-Ymholiadau@llyw.cymru.